ofgem Hyrwyddo dewis a gwerth i bob cwsmer nwy a thrydan

# Cael y fargen orau o'r farchnad ynni

**Taflen ffeithiau 115** 24.10.12 www.ofgem.gov.uk

**Ar ôl ein hadolygiad eang o'r farchnad ynni, mae Ofgem yn ymgynghori ar gynigion i'ch helpu i ddeall eich dewisiadau a'ch helpu i wneud penderfyniadau gwell am eich nwy a'ch trydan.**

**Mae'r daflen ffeithiau hon yn nodi pecyn o gynigion symlach, cliriach a thecach Ofgem a fydd yn ei gwneud hi'n haws i chi ddeall y farchnad ynni a dewis y fargen orau.**

## Datrys problemau'r farchnad ynni

Nododd adolygiad Ofgem o'r farchnad ynni fod llawer o ddefnyddwyr yn ei chael hi'n anodd deall tariffau a bod y nifer fawr o gynigion sydd ar gael a'u cymhlethdod yn codi braw arnynt. Gwelodd hefyd nad oes gan lawer o gwsmeriaid ffydd yn eu cyflenwr.

Ar ôl yr adolygiad, mae rhai o blith y Chwe Chyflenwr Mawr wedi cyhoeddi newidiadau sydd wedi'u cynllunio i wella gwasanaethau i gwsmeriaid - ond mae Ofgem o'r farn bod llawer i'w wneud o hyd. Mae angen gwneud newidiadau ym mhob rhan o'r farchnad ynni er mwyn sicrhau ei bod yn symlach, yn gliriach, yn decach ac yn fwy hygyrch i ddefnyddwyr.

Os bydd mwy o ddefnyddwyr yn gweithredu ac yn ystyried eu hopsiynau ynni, bydd mwy o bwysau ar gyflenwyr i bennu prisiau cystadleuol.

## Beth y bydd marchnad ynni symlach, cliriach a thecach yn ei olygu i chi

Nod Ofgem yw eich helpu i asesu eich opsiynau ynni drwy'r canlynol:

- **dewisiadau symlach** – drwy wneud tariffau yn llai cymhleth a sicrhau bod llai ohonynt ar gael
- **gwybodaeth gliriach** – gwella ansawdd gwybodaeth i ddefnyddwyr
- **triniaeth decach** – rheolau newydd i orfodi cyflenwyr i drin eu cwsmeriaid yn dda neu gallent gael eu dirwyo.

## Dewisiadau Symlach

Mae Ofgem yn cynnig nifer o fesurau i wneud y farchnad ynni yn llai dryslyd ac yn haws i'w deall:

- cyfyngiad ar nifer y tariffau y gall pob cyflenwr eu cynnig
- cael gwared ar dariffau dwy haen i'w gwneud yn fwy tryloyw
- bydd yn rhaid i gyflenwyr ddweud wrthych am eu cynnig rhataf
- bydd yn rhaid i gyflenwyr ddangos Cyfradd Cymharu Tariffau ar gyfer pob tariff - sy'n debyg i gyfraddau canrannol blynyddol (APR) yn y farchnad ariannol - i'ch galluogi i gymharu eu cynigion â rhai cyflenwyr eraill.
- ni fydd gan eich cyflenwr yr hawl i'ch cadw ar dariff anghystadleuol sydd wedi dod i ben, h.y. tariff cyfradd amrywiol safonol nad yw ar gael mwyach i gwsmeriaid newydd. Bydd ein rheolau yn golygu y byddwch ond yn aros ar dariff sydd wedi dod i ben os yw'n dal i fod yn rhatach na thariff cyfradd amrywiol safonol rhataf eich cyflenwr. Os nad yw'n rhatach, bydd eich cyflenwr yn eich symud i'w dariff cyfradd amrywiol safonol rhataf.

## Gwybodaeth gliriach

Mae defnyddwyr yn cael amrywiaeth eang o wybodaeth am ynni gan gyflenwyr a all fod yn ddryslyd ac yn annefnyddiol. Mae Ofgem wedi cynnal ymchwil i ddefnyddwyr i wella'r ohebiaeth hon er mwyn ei gwneud yn fwy personol, gwella'r iaith fel bod pobl yn ei deall yn well a chynnwys gwybodaeth ddefnyddiol i'ch helpu i ystyried newid.

Y canlynol yw'r prif bethau i'w cofio wrth asesu eich opsiynau ynni - gan gynnwys ein newidiadau allweddol a fydd yn eich helpu i benderfynu a ydych yn cael y fargen ynni orau ai peidio:

- Mae'r **bil** yn dangos faint sy'n ddyledus gennych neu faint rydych wedi'i dalu am eich nwy neu drydan - rydym yn cynnig y dylai gynnwys gwybodaeth allweddol arall yn y dyfodol hefyd. Rydym yn cynnig y dylid cynnwys blwch crynodeb i roi gwybodaeth syml a hawdd ei deall i chi am statws eich cyfrif, eich tariff presennol a faint o ynni rydych yn ei ddefnyddio. Rydym hefyd yn cynnig y dylai tariff rhataf eich cyflenwr ymddangos ar y dudalen flaen ynghyd â faint o arian y gallech ei arbed drwy newid i'r tariff hwnnw.
- **Y datganiad blynyddol** yw'r brif ddogfen i'ch helpu i ddeall eich tariff ac ystyried a ddylech newid ai peidio. Bydd yn rhoi gwybodaeth am gostau a thelerau eich tariff, faint o ynni rydych yn ei ddefnyddio a'r arbedion y gallech eu gwneud drwy newid i dariff arall. Bydd yn eich helpu i ddeall eich tariff presennol a'i gymharu â rhai cyflenwyr eraill.
- Mae'r **hysbysiad am godi prisiau** yn rhoi gwybod i chi ymlaen llaw am newidiadau i dariffau a'r effaith y bydd y cynnydd yn ei chael ar eich bil ynni. Bydd hwn yn haws i'w ddeall ac yn rhoi gwybodaeth am y tariffau rhataf i'ch helpu i benderfynu a ddylech newid er mwyn osgoi'r cynnydd.
- Mae **hysbysiadau am ddiwedd contractau tymor penodol** yn rhoi gwybod i chi bod eich contract presennol ar fin dod i ben. Bydd cynigion Ofgem yn golygu y byddwch yn cael cymhariaeth glir rhwng 'gwneud dim' a'r tariffau eraill sydd ar gael.

## Triniaeth Decach

Er mwyn helpu i adfer ffydd cwsmeriaid, mae Ofgem yn cynnig rheolau newydd fel bod pob cyflenwr yn trin cwsmeriaid yn deg ac yn sicrhau ei fod yn diwallu anghenion defnyddwyr boed hynny drwy'r wybodaeth y mae'n ei hanfon atoch, neu os oes gennych gwestiwn neu gwyn. O dan y cynnig hwn, byddem yn disgwyl i gyflenwyr wrando ar farn eu cwsmeriaid ac ystyried eu hanghenion. Os na fyddant yn gwneud hynny, gallent wynebu dirwyon gan Ofgem.

Rydym hefyd am i ddefnyddwyr fod yn fwy hyderus wrth ymrwymo i gynigion tymor penodol ac felly rydym yn cynnig rheolau newydd ar gyfer telerau ac amodau, gan gynnwys gwahardd trosglwyddo pobl yn awtomatig i gynnig tymor penodol arall heb eu caniatâd.

## Sut y gall y cynigion hyn eich helpu

Mae pobl yn ymdrin â'r farchnad ynni mewn ffyrdd gwahanol ac nid oes rhai yn ymdrin â hi o gwbl. Bydd ein pecyn o fesurau i wella gwybodaeth gan gyflenwyr yn helpu pob defnyddiwr.

Os ydych yn wybodus am ynni, cewch fudd o'r ffaith y bydd y wybodaeth allweddol am eich tariff a'ch defnydd o ynni ar gael ar flaenau'ch bysedd. Ymhlith y pethau a all fod o ddiddordeb i chi mae'r canlynol:

- byddwch yn cael gwybodaeth reolaidd am eich defnydd o ynni a rhagamcan o'ch bil blynyddol fel bod gennych y wybodaeth sydd ei hangen arnoch i gymharu dyfynbrisiau â'ch cynnig presennol
- bydd y labeli gwybodaeth newydd am dariffau yn golygu y bydd yn hawdd cymharu telerau ac amodau tariffau yn y farchnad ar sail "tebyg am debyg"
- bydd mesurau diogelu ychwanegol yn cael eu rhoi ar waith os byddwch yn dewis contract tymor penodol. Er enghraifft, bydd rheolau newydd yn cael eu cyflwyno i sicrhau eich bod yn cael y wybodaeth sydd ei hangen arnoch cyn i'ch contract presennol ddod i ben, fel y gallwch ddechrau chwilio am y fargen orau.

Bydd ein cynigion yn golygu y byddwch yn cael gwybodaeth symlach, cliriach a heb jargon gan eich cyflenwr yn ogystal â'r canlynol:

- pan fydd eich pris yn newid byddwch yn cael gwybodaeth glir yn dweud wrthych, mewn punnoedd a cheiniogau, beth fydd y gost newydd debygol.
- mae Ofgem hefyd yn bwriadu treialu cynllun gyda chyflenwyr lle byddant yn cynnig gwybodaeth am y cynnig rhataf ar draws y farchnad i'w cwsmeriaid mwyaf bregus a'r rhai sydd heb newid ers cryn amser.
- rydym yn gweithio i sicrhau y gallwch siarad â chyfryngwyr (fel cynghorwyr neu asiantau gwerthu) ac ymddiried ynddynt ac rydym am hwyluso cynlluniau newid cyfunol
- bydd yn rhaid i gyflenwyr gyrraedd Safonau Ymddygiad: i'ch trin yn deg a sicrhau eu bod yn diwallu anghenion defnyddwyr. Bydd hyn yn cynnwys eu holl gyswllt a gohebiaeth â chi, gan gynnwys y wybodaeth y byddant yn ei hanfon yn ogystal â phan fyddwch yn cysylltu â nhw gyda chwestiwn neu gwyn.

Ac os byddwch yn dewis gwneud dim byddwch yn cael budd o fesurau diogelu gwell o hyd. Credwn y bydd ein newidiadau yn galluogi mwy o ddefnyddwyr i ymdrin â'r farchnad ynni er mwyn rhoi mwy o bwysau ar gyflenwyr i bennu prisiau mwy cystadleuol a gweithio'n galetach i ddarparu gwasanaeth gwell i'w cwsmeriaid.

# Ydych chi'n cael y fargen ynni orau?

Y pethau arfaethedig i'w hystyried a'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch i wneud penderfyniad da o dan ein cynigion:

**Bill**

Blwch clir ar flaen eich bil sy'n dangos cynnig rhataf eich cyflenwr A gwybodaeth i'ch helpu i gymharu eich cynnig yn erbyn cyflenwyr eraill.

**Datganiad blynyddol**

Dylech gadw'r ddogfen hon er mwyn cyfeirio ati, mae'n cynnwys manylion am eich defnydd o ynni a'ch tariff y bydd eu hangen arnoch os hoffech newid.

**Hysbysiad am godi prisiau**

Bydd hwn yn rhoi gwybodaeth i chi am gynnydd arfaethedig ym mhrisiau eich cyflenwr, sut y bydd hyn yn effeithio ar eich tariff, eich hawliau a'ch opsiynau a sut i'w osgoi.

**Diwedd eich contract penodol**

Bydd hwn yn rhoi gwybodaeth i chi am eich opsiynau o ran tariffau a chyngor ar beth i'w wneud nesaf.

**Cyswllt â chyflenwyr**

Gall eich ysgogi i adolygu eich cynnig. Bydd y Labeli Gwybodaeth am Dariffau arfaethedig newydd yn ei gwneud hi'n haws i chi gymharu.

## Gofynnwch y cwestiynau canlynol i chi eich hun:

A yw fy nefnydd blynyddol o ynni yn uchel/canolig/isel?

A allwn arbed arian drwy newid i gynnig pris/cyfnod penodol?

Beth yw'r ffordd orau o dalu fy miliau?

A oes gan fy nghyflenwr dariff gwell i mi?

Pa ostyngiadau sydd ar gael i mi?

A fyddai cyflenwr arall yn rhoi cynnig gwell i mi?

## Y pethau y gallwch eu gwneud nawr:

Cysylltwch â'ch cyflenwr

Chwiliwch am y fargen orau drwy ddefnyddio gwefannau newid sydd wedi'u hachredu gan Llais Defnyddwyr

Gwnewch yn siŵr eich bod yn defnyddio eich ynni mewn ffordd effeithlon

Ewch i Cyngor am Bopeth am help

**Sampl o Label Gwybodaeth am Dariff sy'n cynnwys ffeithiau allweddol am dariff ynni. Byddai'n ymddangos ar ddatganiadau blynyddol, gwefannau newid a gwefannau cyflenwyr o dan ein cynigion.**

## Gwybodaeth am y tariff

| Y tariff trydan hwn | |
|---|---|
| **Cyflenwr** | Your Power |
| **Enw'r Tariff** | Tariff Adnewyddadwy Penodol YourPower |
| **Y math o dariff** | Gwyrdd, Pris penodol |
| **Dull talu** | Debyd Uniongyrchol |
| **Cyfradd fesul uned** | 14.01c fesul kWh |
| **Tâl Sefydlog** | 17.41 fesul diwrnod |
| **Bydd y tariff yn dod i ben ar** | 18 Chwefror 2011 |
| **Pris wedi'i warantu tan** | 18 Chwefror 2011 |
| **Ffioedd ymadael (os byddwch yn canslo'r tariff hwn cyn y dyddiad gorffen)** | £50.00 |
| **Gostyngiadau a thaliadau ychwanegol** | Dim Gostyngiad |
| **Cynhyrchion neu wasanaethau ychwanegol sydd wedi'u cynnwys** | Pwyntiau teyrngarwch |

**Amcangyfrif o gost trydan ar gyfer cartrefi cyffredin ar y tariff hwn**

| | Defnyddiwr isel | Defnyddiwr canolig | Defnyddiwr uchel |
|---|---|---|---|
| **Defnydd blynyddol tybiedig** | 1,650 kWh | 3,300 kWh | 4,600 kWh |
| **Cost flynyddol amcangyfrifedig** | £294.71 | £525.88 | £708.01 |
| **Cost fisol amcangyfrifedig** | £24.56 | £43.82 | £59.00 |
| **Cyfradd Cymharu Tariffau** | 17.86p per kWh | 15.94p per kWh | 15.39p per kWh |

*Mae costau amcangyfrifedig yn cynnwys TAW ac yn seiliedig ar brisiau presennol y tariff a ddangosir uchod.*

## Y camau nesaf

Mae Ofgem wrthi’n ymgynghori â chyflenwyr, sefydliadau defnyddwyr ac eraill ar y cynigion hyn. Gobeithio y byddant ar waith o haf nesaf ymlaen.

Unwaith y bydd y diwygiadau wedi’u gwneud, byddwn yn parhau i fonitro’r farchnad a byddwn yn cynnal adolygiad llawn ar ôl tair blynedd - neu cyn hynny os bydd angen.

## Beth y gallwch chi ei wneud nawr

Mae pethau y gallwch eu gwneud cyn i’n diwygiadau gael eu rhoi ar waith a all wella eich cynnig ynni a’ch helpu i arbed arian o bosibl:

- siaradwch â’ch cyflenwr - gall ddweud wrthych pa dariffau eraill sydd ganddo a pha rai fyddai orau i chi
- chwiliwch am y fargen orau - defnyddiwch wasanaethau cymharu prisiau sydd wedi’u hachredu gan God Ymddiriedaeth Llais Defnyddwyr: http://www.consumerfocus.org.uk/
- ystyriwch ffyrdd y gallwch sicrhau bod eich cartref yn defnyddio ynni mewn ffordd fwy effeithlon. Ffoniwch yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni ar **0300 123 1234**[1]* neu ewch i **www.direct.gov.uk**
- os oes angen help wyneb yn wyneb arnoch, efallai y gall ein Hymgyrch Ynni - y Fargen Orau gyda Chyngor ar Bopeth eich helpu. Am ragor o wybodaeth ewch i’n gwefan: http://www.ofgem.gov.uk/domestic-consumers/smebd/Pages/smebd.aspx neu cysylltwch â Chyngor ar Bopeth ar **08454 040506**

[1] Codir tâl ar y gyfradd genedlaethol safonol am alwadau

Ar gyfer ymholiadau gan y cyhoedd, cysylltwch â’r:

**Tîm Materion Defnyddwyr**
020 7901 7295 e-bost: consumeraffairs@ofgem.gov.uk

Ar gyfer ymholiadau gan y cyfryngau, cysylltwch â:

**Lydia Fitzpatrick, Uwch Swyddog Cyfathrebu**
020 7901 7419 e-bost: lydia.fitzpatrick@ofgem.gov.uk

**Chris Lock, Uwch Swyddog y Wasg**
020 7901 7225 e-bost: chris.lock@ofgem.gov.uk